Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adroddiad y Gymraeg 2022-23



Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
**Y LOTERI GENEDLAETHOL**
**THE NATIONAL LOTTERY®**

# Cynnwys


Cyflwyniad .......... 3
Trosolwg o gynnydd .......... 4
Niferoedd ac ystadegau .......... 6
Cynnydd argymhellion adroddiad mapio'r Gymraeg .......... 10
Cydymffurfio .......... 17
- Pwyllgor y Gymraeg .......... 18
- Safonau'r Gymraeg .......... 18
- Cwynion .......... 18
- Sgiliau iaith staff .......... 19
- Penodiadau newydd .......... 19
- Hyfforddiant .......... 19

Gofynion statudol eraill .......... 20


**Hygyrchedd**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Arwyddeg a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Clawr: Llais y Lle, Diwrnod Rhannu (Llun: Iolo Penri)

# Cyflwyniad

Gwelwyd nifer o newidiadau a datblygiadau yn ystod 2022-23. Llwyddwyd i osod cynsail cadarn i ddatblygiadau'r Gymraeg yn fewnol ac o fewn y sector ehangach. Dyma adroddiad ar gynnydd y Gymraeg o fis Ebrill 2022 hyd fis Mawrth 2023.

Croesawyd Cyfarwyddwr Celfyddydol a Rheolwr Portffolio gyda chyfrifoldebau dros y Gymraeg i'r Cyngor Celfyddydau. Mae'r ddwy swydd yma yn gyfrifol am sicrhau llais a datblygiadau strategol i'r Gymraeg.

Croesawyd Prif Weithredwr Interim a Phrif Weithredwr parhaol yn ystod y flwyddyn, a'r olaf yn rhugl yn y Gymraeg.

Bu'r Cyngor Celfyddydau yn paratoi ar gyfer Adolygiad Buddsoddi a Strategaeth newydd gydol y flwyddyn. Gwelwyd cam bras cadarnhaol i'r Gymraeg trwy'r datblygiadau yma wrth i'r Cyngor nodi 6 egwyddor fel sail strategol i'r dyfodol. Mae'r Gymraeg yn un o'r chwe egwyddor hynny.

Y Chwe Egwyddor




Mae ein hymchwil Mapio'r Gymraeg wedi nodi'n glir na allwn fod yn adweithiol ynghylch y Gymraeg. Mae gennym rôl eglur yn y gwaith o'i datblygu, hyrwyddo'r defnydd ohoni a'i gwerth ar bob cyfle, a dod â chreadigrwydd a dychymyg er mwyn sicrhau y bydd yr iaith yn parhau i ffynnu.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyflawni gofynion amrywiol a phellgyrhaeddol mewn sawl maes ac yn ymrwymo i weithredu'r holl amcanion ar draws y Cyngor.

# Trosolwg o gynnydd

Dechreuwyd ar waith y Consortiwm Celf Cymraeg. 12 Artist sy'n cynrhychioli gwahanol gelfyddydau a phrofiadau o weithio'n greadigol gyda'r/trwy'r Gymraeg yw'r consortiwm. Mae ganddynt rôl ymgynghorol ac maent yn gweithio'n agos gydag Ysgogydd y Gymraeg i archwilio a datblygu gweithredoedd a fydd yn cynyddu defnydd a pherchngaeth o'r Gymraeg ar draws y sector gelfyddydol.

Pennwyd pedwar maes gwaith a chynhaliwyd cyfarfodydd a gweithdai dwys i roi'r anghenion ar waith.

1. Mae diffyg unigolion creadigol sy'n medru darparu'n Gymraeg yn cael effaith ar allu pob sefydliad i ddarparu cyfleoedd creadigol Cymraeg. Trafodwyd a chynlluniwyd adnodd Synhwyro'r Iaith fel ymateb i'r angen hwn; adnodd a fydd yn arfogi a chefnogi unigolion i dyfu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau cyfranogol. Trwy gynlluniau Synhwyro'r Iaith, datblygwyd perthynas waith agos â'r rhaglen Dysgu Creadigol a swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru.
2. Crëwyd rhaglen loteri newydd o'r new Llais y Lle sy'n gosod yr her i unigolion creadigol yng Nghymru gynyddu defnydd a pherchnogaeth o'r Gymraeg trwy ddulliau creadigol ar lefel gymunedol. Rydym wedi dyrannu £250,000 o arian loteri i 9 unigolyn creadigol weithio'n ddwys o fewn cymunedau dros gyfnod o flwyddyn.
3. Archwilwyd i bosibiliadau ac anghenion cyfieithu o fewn meysydd creadigol. Sbardun yr angen oedd y cwestiwn, 'Sut mae modd cyfieithu hunan-iaith '? Bydd camau gweithredu ac ymchwilio pellach i'r maes hwn yn y dyfodol.
4. Y maes trosfwaol yw 'Cymraeg yn y canol'. Datblygwyd drafft o faniffesto yn ystod y flwyddyn ond yn hytrach na chyhoeddi'r ddogfen, canolbwyntiwyd ar gynnwys y pwyntiau gweithredu o fewn cynlluniau strategol y Cyngor Celfyddydau a'r Adolygiad Buddsoddi.



Llais y Lle, Taith gerdded Llyn Dulyn

Penodwyd Cydlynydd Dysgu Cymraeg fel rhan o gytundeb â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg. Nod y bartneriaeth yw creu gwasanaeth 'Iaith Gwaith' wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer y celfyddydau. Yn ystod y flwyddyn mae 175 o unigolion wedi derbyn y gwahanol gynigion i ddysgu Cymraeg. Mae'r cynigion hynny'n cynnwys gwersi wythnosol ar lein ar bob lefel, cefnogaeth i'r rhai sy'n dewis dilyn cwrs hunan astudio ar lein, cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn, cynllun siarad ar draws y sector er mwyn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a chyswllt cyson gyda'r sector trwy'r cydlynydd.

Cwblhawyd adroddiad ymchwil Cwmni Arad ar Lwybrau Datblygu'r Gymraeg o fewn y celfyddydau i weithwyr creadigol.

Datblygwyd perthynas Cynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru â'r Mentrau Iaith trwy gynnal 3 taith gerddorol genedlaethol. Mae'r bartneriaeth yn mynd o nerth i nerth ac yn sicrhau perfformiadau celfyddydol mewn cymunedau ar draws Cymru.

Mae'r adran Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi cynnal rhaglen gynhwysfawr o waith i hyrwyddo dwyieithrwydd Cymru ar y llwyfan rhyngwladol a chyfrannu i Ddegawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022 i 2032, gan ganolbwyntio ar hawliau dynol defnyddwyr ieithoedd brodorol a fydd ar fap trywydd strategol i roi blaenoriaeth i rymuso defnyddwyr ieithoedd brodorol. Lansiwyd cronfa Gwrando yn ystod y flwyddyn; cronfa sy'n gosod yr her i unigolion creadigol gynnig cynlluniau a dulliau creadigol o wrando ar ieithoedd eraill.

# Niferoedd ac ystadegau

Mae dwy brif ffynhonnell ariannol gan y Cyngor Celfyddydau, arian craidd trwy Lywodraeth Cymru ac arian loteri. Mae'r arian craidd yn ariannu 67 mudiad portffolio ar draws Cymru ac mae arian loteri yn cael ei ddyrannu trwy amryw raglen loteri benodol ac un rhaglen barhaol, sef 'Creu'. Isod gwelir ffigyrau perthnasol i'r Gymraeg trwy'r ddwy ffynhonnell ariannu. Gellir cymharu dyraniad canrannau gwariant â'r flwyddyn flaenorol yn seiliedig ar gyfrwng iaith y ceisiadau.



## Arian loteri

Gan fod nifer cynyddol yn sicrhau argaeledd gwaith i bawb trwy raglenni ehangu cyfranogiad a phwyslais CCC i gynnwys BSL fel trydydd iaith, gwelir gwahaniaethau mewn dyraniad iaith. Nid oes llawer o geisiadau am brosiectau 100% Cymraeg, er y gwelir cynnydd o fewn y tabl isod. Gwelir cynnydd mewn ceisiadau sydd dros 50% yn Gymraeg, ond mae hefyd gynnydd mewn ceisiadau sydd heb Gymraeg o gwbl. Dydy'r chwe egwyddor sydd wedi eu gosod fel sail gwaith i'r dyfodol ddim wedi eu rhoi ar waith o fewn y rhaglenni loteri yn ystod y flwyddyn hon.

Yn ystod 2021/22 cymeradwywyd 17.5 %o'r holl geisiadau i gynlluniau a oedd yn cynnwys dros 50% o'r Gymraeg.

Ym ystod 2022/23 cymeradwywyd 23 .2% o'r holl geisiadau i gynlluniau a oedd yn cynnwys dros 50% o'r Gymraeg.

| Loteri Genedlaethol | 2021-2022 | | | 2022-2023 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **% prosiectau iaith Gymraeg** | Cymeradwyo | Gwrthod | **% cymeradwyo holl grantiau** | Cymeradwyo | Gwrthod | **% cymeradwyo holl grantiau** |
| **0%** | 34 | 33 | **9.2%** | 58 | 44 | **11.6%** |
| **1%-15%** | 100 | 86 | **27.0%** | 128 | 83 | **25.5%** |
| **16%-29%** | 73 | 49 | **19.7%** | 91 | 61 | **18.2%** |
| **30%-49%** | 98 | 110 | **26.5%** | 108 | 77 | **21.6%** |
| **50%-74%** | 43 | 62 | **11.6%** | 68 | 48 | **13.6%** |
| **75%-99%** | 19 | 17 | **5.1%** | 36 | 25 | **7.2%** |
| **100%** | 3 | 9 | **0.8%** | 12 | 6 | **2.4%** |

## Mudiadau portffolio celfyddydol Cymru

Mae'r Cyngor yn ariannu 67 o fudiadau portffolio celfyddydol. Dyma ganlyniadau data holiadur blynyddol y mudiadau hynny ar gyfer 2022/23. Cyflwynir ffigyrau cadarnhaol iawn ar y cyfan. Mae twf o ryw fath ym mhob maes.

Mae'r ffigyrau isod yn cymharu niferoedd perfformiadau, mynychwyr, gweithgareddau cyfranogol a'u mynychwyr yn ôl gofyn iaith Gymraeg. Mae'r ffigyrau yn dangos cynnydd cyffredinol. Mae cwymp amlwg mewn perfformiadau Cymraeg gan gwmnïau teithiol ond cynnydd aruthrol yn y cynyrchiadau dwyieithog gan gwmnïau teithiol. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid ieithyddol cyffredinol i gynnwys BSL a'r Gymraeg. Mae'n galonogol gweld cynnydd o 50% mewn mynychwyr digwyddiadau sy'n siarad Cymraeg.

### Niferoedd digwyddiadau

| Perfformiadau | % newid Cymraeg ers 2021/22 | % newid dywieithog ers 2021/22 |
|---|---|---|
| Dangosiadau ffilm | 256% | -100.0% |
| Perfformiadau gan gwmnïau teithiol | -42% | 278% |
| Perfformiadau mewn lleoliadau | 50% | 400% |
| **Cyfanswm** | **-4%** | **242%** |

| Mynychwyr | % newid Cymraeg ers 2021/22 | % newid dywieithog ers 2021/22 |
|---|---|---|
| Dangosiadau ffilm | 89% | -100% |
| Perfformiadau gan gwmnïau teithio | 43% | 50% |
| Perfformiadau mewn lleoliadau | 167% | 1417% |
| **Cyfanswm** | **80%** | **118%** |

### Niferoedd cyfranogol

| Sesiynau | % newid Cymraeg ers 2021/22 | % newid dywieithog ers 2021/22 |
|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc | 10% | 25% |
| Agored i bawb | 54% | 140% |
| **Cyfanswm** | **14%** | **42%** |

| Mynychwyr | % newid Cymraeg ers 2021/22 | % newid dywieithog ers 2021/22 |
|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc | 59% | 75% |
| Agored i bawb | 110% | -13% |
| **Cyfanswm** | **66%** | **46%** |

Mae ffigyrau gweithgareddau a mynychwyr gweithgareddau cyfranogol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae cynnydd hefyd yn y cyflogai sy'n siarad Cymraeg (isod). Serch hynny, gan nad yw ffigyrau llawryddion sy'n siarad Cymraeg wedi dangos yr un cynnydd, rhaid cadw llygad ar y ffigyrau yma. Mae'n ymddangos bod cyflogai yn cynnal gweithgareddau Cymraeg a bod y llawryddion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi i gynnal mwy o weithgareddau.

| Cyflogaeth | % newid |
|---|---|
| % siaradwyr Cymraeg | 27.1% |
| % siaradwyr Cymraeg ar fyrddau | 9.6% |
| % gwirfoddolwyr sy'n siaradwyr Cymraeg | 54.9% |

Mae cynnydd ym mhob maes cyflogaeth a gwirfoddol o fewn y mudiadau portffolio ond mae darlun llawryddion yn wahanol. Mae twf aruthrol yn nifer y llawryddion rhwng 2021/22 a 2022/23 fel y gwelir isod ac er bod twf yn y llawryddion sy'n siarad Cymraeg dydy hwnnw ddim yn cyfateb i'r ffigyrau cyffredinol. Ond mae'n rhaid cofio mai dim ond yn 2021/22 y dechreuodd data gweithwyr llawrydd gael eu casglu ar wahân i weithwyr contract fesul awr. Nid oedd pob sefydliad yn cofnodi'r data cyn hynny. Dylai ffigyrau cymharol y flwyddyn adrodd nesaf roi cymhariaeth fwy cyson i ni.

| | 2021-2022 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Nifer llawryddion | 2,808 | 4,716 |
| Nifer llawryddion sy'n siarad Cymraeg | 600 | 676 |
| **% llawryddion sy'n siarad Cymraeg** | **21.40%** | **14.3%** |

# Cynnydd argymhellion adroddiad mapio'r Gymraeg

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br>Y Cyngor i arwain ar greu partneriaeth strategol hirdymor ar draws sectorau a sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng sector y celfyddydau a sector y Gymraeg, gan fabwysiadu model arian cyfatebol ar gyfer mentrau penodol y cytunwyd arnynt a phrosiectau cenedlaethol. | Sefydlu cyfarfod ar gyfer sefydliadau allweddol yn y sector cyhoeddus a nodwyd yn yr ymchwil i gwrdd â thrafod opsiynau i gydweithio.<br><br>Hwyluso'r gwaith o ddatblygu partneriaeth strategol gyda nodau clir ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch yn y Gymraeg.<br><br>Ceisio sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhyngom ni a'r rhwydwaith cyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21.<br><br>Gwneud yn siŵr bod ein gweithgareddau'n cefnogi ein hymrwymiad i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac yn adrodd yn ôl amdanynt. | Cynnal trafodaeth gychwynol gyda'r Mentrau iaith i drafod ffocws, angen ac ymarferoldeb creu a chynnal rhwydwaith rhwng y sector ieithyddol a chelfyddydol.<br><br>Penodi Cydlynydd Dysgu Cymraeg o fewn y Cyngor trwy bartneriaeth gyda'r ganolfan Dysgu Cymraeg a gweithredu cynllun sy'n ymateb i ofynion ac ymchwil.<br><br>Ffurfioli partneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan gynnwys buddsoddiad o £50,000 o'r Ganolfan sydd wedi arwain at swydd Cydlynydd Dysgu Cymraeg o fewn y Cyngor.<br><br>Parhau i annog a galluogi partneriaethau llawr gwlad trwy gynllun ariannu Cysylltu a Ffynnu.<br><br>Sefydlu rhwydwaith hyrwyddwyr Cymraeg trwy gynllun Noson Allan.<br><br>Trafod creu sefydlu rhwydwaith ar y cyd â'r Mentrau Iaith. Ymrwymo i ymchwilio i'r posibiliadau.<br><br>Cynnal sgyrsiau rhyngsectorol gyda'r Mudiad Meithrin a sicrhau eu presenoldeb yn natblygiadau cynllun blynyddoedd cynnar y rhaglen Dysgu Creadigol. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 2**<br>Y Cyngor/sector i ddatblygu'r Gymraeg i sefydlu consortiwm a rhwydwaith am y Gymraeg sy'n cynnwys aelodau o sector y Gymraeg a'r Portffolio i weithredu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a datblygu cydweithio agosach a rhannu arbenigedd a gwybodaeth. | Gwahodd sefydliadau allweddol a nodwyd yn yr ymchwil o'r Portffolio a sector y Gymraeg i gyfarfod i drafod opsiynau ar gyfer cydweithio creadigol.<br>Os gellir cytuno ar gydamcanion rhwng partneriaid, byddwn ni'n annog a chefnogi'r datblygiad ffurfiol o Gonsortiwm Celfyddydol Cymraeg. Ein nod yw i hyn ddatblygu rhestr o syniadau creadigol posibl i'w datblygu yn unol â'n hamcanion.<br>Sicrhau bod y consortiwm yn amrywiol ac yn cynnwys cynrychiolwyr Cymraeg o'r holl nodweddion gwarchodedig. | Creu consortiwm celf Cymraeg o 12 o aelodau o wahanol arbenigeddau celfyddydol gyda ffocws penodol ar weithredu trwy a gyda'r Gymraeg. Bydd aelodaeth y consortiwm yn newid yn flynyddol.<br>Sicrhau amrywiaeth profiadau byw, celfyddydol, daearyddol ac oed wrth ddewis aelodaeth y consortiwm celf Cymraeg.<br>Llunio cynllun gweithredu gyda'r Consortiwm celf Cymraeg:<br>1. Adnodd Synhwyro'r Iaith i arfogi a chefnogi unigolion i dyfu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau cyfranogol.<br>2. Rhaglen loteri Llais y Lle sy'n gosod yr her i unigolion creadigol yng Nghymru gynyddu defnydd a pherchnogaeth o'r Gymraeg trwy ddulliau creadigol ar lefel gymunedol. Dyrannu £250,000 o arian loteri i 9 unigolyn creadigol weithio'n ddwys o fewn cymunedau dros gyfnod o flwyddyn.<br>3. Archwilwyd i bosibiliadau ac anghenion cyfieithu o fewn meysydd creadigol. Sbardun yr angen oedd y cwestiwn, 'Sut mae modd cyfieithu hunan-iaith'?<br>4. Gosod y Gymraeg yng nghanol creadigrwydd. Cynghori ar ddatblygiadau strategol y Gymraeg o fewn y Cyngor a'r sector. |
| **Argymhelliad 3**<br>Y Cyngor a'r sector datblygu iaith i greu ar y cyd swydd newydd, Rheolwr Datblygu'r Celfyddydau Cymraeg, i arwain ar weithio'n agosach yn genedlaethol/ar draws y sector. | Cynyddu ein gallu i gefnogi datblygiadau yn y Gymraeg a byddwn ni'n clustnodi arian i gefnogi'r argymhelliad yn y flwyddyn ariannol bresennol.<br>Mewn ymgynghoriad â'r darpar bartneriaid a nodwyd yn yr adroddiad (ac o bosibl y Bartneriaeth Strategol os caiff ei sefydlu'n gyflym), byddwn ni'n ymchwilio i'r ffordd fwyaf cost effeithiol o gyflwyno'r argymhelliad fel mater o frys. | Penodi Ysgogydd y Gymraeg (Graddfa D) ar gytundeb 3 mlynedd i ddechrau ar Dachwedd 1af 2021.<br>Darganfod anghenion a heriau datblygu'r Gymraeg ar draws y sector ac addasu gofynion y swydd yn ôl y gofyn. Gweld yr angen am ofal rheoleiddiol a datblygiad ysgogol o fewn y sector a'r Cyngor. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 4**<br>Y Cyngor i'w wneud yn amod bod chwarter o bob bwrdd yn y Portffolio yn siaradwyr Cymraeg. | Sicrhau bod byrddau'r holl Bortffolio yn cynrychioli'r cyhoedd y maent yn eu gwasanaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. (Gall 25% fod yn afrealistig i rai sefydliadau gan ddibynnu ar eu lleoliad a'u diben. Felly, rydym ni'n croesawu ysbryd yr argymhelliad ond byddwn ni'n dod o hyd i ddull amgen i osod cwota a chanran.)<br><br>Rydym ni'n cydnabod y dylanwad sydd gan unrhyw fwrdd ar ei sefydliad. Rydym ni hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cael profiad byw o'r Gymraeg ar fyrddau. Gan fod y cynnydd cyffredinol i fyrddau cynhwysol ac amrywiol wedi bod yn annerbyniol o araf, byddwn ni'n fwy rhagweithiol yn ein galwadau ynghylch cyfansoddiad byrddau'r Portffolio fel eu bod yn dod yn fwy cynrychioliadol a gwybodus am anghenion a buddiannau'r rhai y maent yn eu gwasanaethu. Caiff hyn ei gynnwys yn y cytundebau ariannu blynyddol ar gyfer 2021/22 a bydd yn amod ar gyfer derbyn cynlluniau ariannu. | Mae'r Pecyn Hyrwyddo Dwyieithrwydd a ddatblygwyd yn benodol i sector y celfyddydau gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a gellir ei weld yma. Mae'r Pecyn yn cynnwys llenwi holiadur 'Pa mor ddwyieithog ydych chi?' a all fod y cam cyntaf yn y broses o ymuno â chynllun y Cynnig Cymraeg.<br><br>Mae ein nodiadau canllaw ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi hefyd yn datgan yn eglur fod y Gymraeg yn un o'n blaenoriaethau a'i bod wedi cael ei chynnwys yn ein proses asesu. Mae pob sefydliad yn ateb y gofyn canlynol fel rhan o'u prosesau ymgeisio:<br>• Mae eich sefydliad yn rhagweithiol ac yn uchelgeisiol yn eu cynlluniau a pholisïau ynglŷn â'r Gymraeg ar draws pob agwedd o'r sefydliad ac yn eu monitro'n rheolaidd.<br>• Rydych wedi ymrwymo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad ar bob lefel.<br>• Mae eich rhaglen waith yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gysylltu â'r iaith a'i dysgu a'i defnyddio gyda phawb, gan ddatblygu strategaethau creadigol i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol fel iaith leiafrifol mewn cyd-destun byd-eang.<br>• Rydych yn sicrhau ffyrdd creadigol o rannu a dathlu stori Cymru a'r Gymraeg, gan godi ymwybyddiaeth o'i datblygiad o fewn cyd-destun diwylliant cyfoes.<br>• Rydych yn gweithredu'r holl ofynion y mae'r mesur iaith Gymraeg yn disgwyl i chi weithredu ac ennill marc ansawdd Cynnig Cymraeg i wella, ehangu a datblygu eich gwasanaethau Cymraeg. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 4** (parhad) | | • Rydych yn cydweithio â sefydliadau ac unigolion eraill, gan sicrhau perchnogaeth greadigol a rennir sy'n tynnu ar brofiad a gwybodaeth eraill i ddatblygu'r Gymraeg yn eich sefydliad a'ch cymunedau.<br>• Rydych yn sicrhau ymrwymiad i ddatblygu a chynnal llwybrau gyrfa mewn sgiliau Cymraeg a Chymraeg sy'n hwyluso, hyrwyddo a gwella sylfeini'r sector celfyddydau Cymraeg.<br>• Rydych chi'n barod i archwilio cyfleoedd i gysylltu'r Gymraeg ag ieithoedd eraill, ymarfer croestoriad, a mentrau, er enghraifft Degawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig. |
| **Argymhelliad 5**<br>Y Cyngor i sicrhau newid sylweddol yn yr ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ei diwylliant a'i hanes yn sector y celfyddydau gan ddechrau gyda chyflwyniad i'r Gymraeg, ei diwylliant a'i hanes dan arweiniad yr Athro Peredur Lynch a'r Athro Mererid Hopwood ar gyfer holl staff y Cyngor. | Sicrhau bod rhaglen ddysgu ar-lein ar hanes a chyd-destun diwylliannol Cymru ar gael.<br>Comisiynu siaradwyr ysbrydoledig i baratoi sgyrsiau i'w rhannu. | Cynnal sesiynau arwain mewn gwlad ddwyieithog gyda'r Uwch dim rheoli, aelodau'r Cyngor a rheolwyr o fewn y Cyngor.<br>Casglu adborth ac angen i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith ar draws y Cyngor cyn ei ymestyn i'r sector ehangach. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 6**<br>Y Cyngor i gynnwys yn ei strategaeth ehangach ar gyfer y Gymraeg strategaeth 5 mlynedd feiddgar ac ysbrydoledig (ynghyd â chynllun gweithredu gyda thargedau mesuradwy yn benodol i gynyddu lefel, amrywiaeth a chysondeb cynnyrch/cynnwys celfyddydol byw sydd ar gael i gynulleidfaoedd ledled Cymru). | Datganiad am ein Gweledigaeth newydd sy'n ysbrydoledig a deinamig i ddatblygu'r Gymraeg wrth ymateb i'r sefyllfa frys. Bydd yn dangos sut y gallwn ysgogi pob agwedd ar ein gwaith i gefnogi'r Gymraeg.<br>Gweithio gyda'n Portffolio a'n tîm ymchwil i ddatblygu targedau mesuradwy ar gyfer cysondeb ac ansawdd y cynnyrch sydd ar gael i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr Cymraeg fel y gallwn gydweithio i ddangos bod gwir welliant.<br>Gweithio'n agos gyda Rhwydwaith Strategol y Gymraeg a'r Consortiwm Celfyddydol (pan gaiff ei sefydlu) i weithio mewn partneriaeth am y Weledigaeth i sicrhau ein bod yn defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio.<br>Defnyddio ein sylfaen Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i annog gwell craffu ar geisiadau'r Loteri Genedlaethol i asesu eu heffaith ar y Gymraeg.<br>Sicrhau ymrwymiad i gydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd yn ein holl weithgareddau – mae'r rhain yr un mor bwysig yn y Gymraeg hefyd.<br>Gweledigaeth i gynnwys cyfraniad Cymru at ddiogelu amrywiaeth ieithyddol fel rhan o nodau Lles a Chyfrifoldeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig. | Datganiad gweledigaeth drafft cyntaf wedi ei lunio ac yn cael ei drafod. Lluniwyd y datganiad yn dilyn cyfres o sesiynau trafod mewnol ac allanol i drafod y strategaeth a'r weledigaeth.<br>Drafft 2022<br>"Bod iaith a chelfyddyd yn cyd-greu, cyd-ddychmygu, cydymdeithio wrth sicrhau eu bod yn perthyn i bawb yng Nghymru heddiw ac ymhell i'r dyfodol. Bod cyfle cyfartal i bawb berchnogi a dathlu'r Gymraeg yn greadigol yng Nghymru trwy ei symud o'r ymylon i'r canol; yn gatalydd creadigol o fewn cymunedau. Trwy lens y Gymraeg byddwn yn diogelu lles diwyllianol ar gyfer cendlaethau'r dyfodol trwy fod yn gyfrifol, cynhwysiol ac arloesol."<br>Wedi casglu canfyddiadau o'r ymgynhoriadau cyhoeddus a mewnol a chanfyddiadau ymchwil perthnasol a'u crynhoi i ffurfio drafftiau cychwynol y Cynllun. Wedi cynnwys archwiliadau'r Consortiwm celf Cymraeg yn y drafftiau hynny.<br>Penderfynu oedi'r broses o lunio strategaeth a'i alw yn gynllun er lles eglurder mewn perthynas â phrif strategaeth y Cyngor. |


| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 7**<br>Datblygu llwybrau clir a chreadigol i ddatblygu gyrfa gynaliadwy yn y celfyddydau yn y Gymraeg gyda'r sector Addysg Bellach/Addysg Uwch, Coleg Cerdd a Drama Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a rhaglen Ysgolion Creadigol y Cyngor. | Datblygu trafodaethau yn y Rhwydwaith Strategol sy'n canolbwyntio ar lwybrau creadigol drwy'r Gymraeg.<br><br>Sicrhau bod darpariaeth a chyfleoedd Cymraeg yn cael eu hymgorffori'n briodol yn ein rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.<br><br>Parhau i weithio i ddatblygu atebion dychmygus gyda phartneriaid allweddol ac unigolion/gweithwyr llawrydd. | Comisiynwyd Cwmni Arad i gynnal ymchwil ar Lwybrau datblygu'r Gymraeg o fewn y celfyddydau i weithwyr creadigol. Cwblhawyd yr ymchwil erbyn diwedd y cyfnod adrodd hwn.<br><br>Casglu gwybodaeth am y gwaith amrywiol sy'n digwydd ar hyn o bryd.<br><br>Casglu gwybodaeth am y diffygion a'r cyfleoedd datblygu gweithlu creadigol.<br><br>Trafod anghenion a syniadau gyda'r gweithlu creadigol, sefydliadau celfyddydol a darparwyr cyrsiau creadigol.<br><br>Bydd ymateb i'r adroddiad yn cael ei rannu yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 8**<br>Y Cyngor i sefydlu a rheoli'n barhaus gronfa ddata ganolog, ddeinamig o ymarferwyr/artistiaid Cymraeg i 'ddarparu gwybodaeth a chyngor arbenigol am y celfyddydau' (o gynllun corfforaethol y Cyngor) ac i nodi'r waelodlin bresennol. | Ystyried materion o ran y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a allai effeithio ar ein gallu i weithredu'r argymhelliad.<br><br>Sefydlu'r waelodlin bresennol yn fewnol.<br><br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru drwy ei Haddewid Llawrydd ynghylch posibiliadau'r argymhelliad. | Mae sawl cwestiwn a phryder ynghylch perthnasedd cronfa ddata o'r fath i gorff ariannu'r celfyddydau.<br><br>Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu nifer yr unigolion creadigol sy'n siarad Cymraeg sy'n gofyn am nawdd i'r Cyngor Celfyddydau a chynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu creadigol presennol.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau celfyddydol, unigolion creadigol a mudiadau iaith er mwyn creu cysylltiadau ymarferol a sicrhau cefnogaeth bartneriaeth er mwyn tyfu a rhannu gwybodaeth am ymarferwyr creadigol Cymraeg a siaradwyr newydd. |

| Argymhelliad adroddiad mapio 2020 | Ymrwymiad gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru 2020 fel ymateb i'r adroddiad | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 9**<br>Cynyddu nifer yr ymarferwyr Cymraeg yn sylweddol gan ganran sydd wedi cytuno arni. | Adolygu ar frys sut y bydd modd i weithredu'r argymhelliad drwy ein rhaglen Llwybrau Creadigol unwaith y bydd gwaelodlin gywir wedi'i sefydlu.<br><br>Cyflymu ein gwaith o gefnogi prentisiaid, cyfleoedd mentora a phrofiad gwaith drwy'r Gymraeg. | Cynnal cytundeb gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Fel rhan o'r gytundeb rydym yn derbyn cyllid ychwanegol o'r Ganolfan er mwyn penodi Cydlynydd Dysgu Cymraeg ar gyfer y sector ar gyfer 2022/23.<br><br>Nod y swydd a'r bartneriaeth yw creu gwasanaeth 'Iaith Gwaith i'r celfyddydau'.<br><br>Dechreuodd y Cydlynydd ei swydd ym mis Awst 2022. Erbyn diwedd y flwyddyn adrodd mae 175 o unigolion wedi derbyn y gwahanol gynigion i ddysgu Cymraeg. Mae'r cynigion hynny yn cynnwys gwersi wythnosol ar lein ar bob lefel, cefnogaeth i'r rhai sy'n dewis dilyn cwrs hunan astudio ar lein, cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn, cynllun siarad ar draws y sector er mwyn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a chyswllt cyson gyda'r sector trwy'r cydlynydd. |
| **Argymhelliad 10**<br>Y Cyngor i rannu â'r sector wybodaeth am yr ymarfer gorau ym maes marchnata Cymraeg i gynulleidfaoedd Cymraeg ac ymgymryd ag ymchwil gysylltiedig i anghenion cynulleidfaoedd Cymraeg. | Rydym eisoes wedi comisiynu darn o ymchwil i farchnata Cymraeg. Daeth yr ymchwil i ben yn Hydref 2020 a cyhoeddwyd ein hymateb ym mis Hydref 2021.<br><br>Fel rhan o'n gwaith i fodloni Safon 90 o Fesurau'r Gymraeg, rydym ni wedi datblygu pecyn offer sy'n hyrwyddo ymarfer da.<br><br>Dylai gwell partneriaethau â sector y Gymraeg ein galluogi i ddefnyddio datblygiadau academaidd, ymarferol a thechnolegol yn brydlon ac ymestyn eu proffil a'u defnydd yn y gymuned gelfyddydol. | Rhannu Pecyn Hyrwyddo Dwyieithrwydd yn benodol i sector y celfyddydau gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.<br><br>Cwblhawyd Adroddiad Marchnata'r Gymraeg yn ystod 2020, a cyhoeddwyd ymateb yn Hydref 2021. Rydym yn y broses o weithredu'r argymhellion perthnasol.<br><br>Cyflawni argymhellion posib o fewn yr adroddiad mapio a chydymffurfio gyda gofynion y Cyngor trwy'r safonau iaith. |

# Cydymffurfio

## Trosolwg o wasanaeth Cymraeg a chydymffurfiant

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am orfodi dyletswyddau cyfreithiol y Mesur trwy gyfres o Safonau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus megis Cyngor Celfyddydau Cymru eu cyrraedd. Mae'r Comisiynydd hefyd yn ein monitro bob blwyddyn i asesu pa mor dda rydym ni'n ei wneud o ran eu cyrraedd.




Llais y Lle

## Pwyllgor y Gymraeg

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru Bwyllgor y Gymraeg (Grŵp Monitro'r Gymraeg yn flaenorol) y mae ei Gyngor wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddo am gychwyn, rheoli a monitro gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg yn y celfyddydau.

Mae Pwyllgor y Gymraeg yn un o'r 7 is-bwyllgor sydd, ynghyd â'r Cyngor, yn cychwyn, rheoli a monitro gwaith, ac y mae'r Cyngor yn dirprwyo pwerau penodol iddynt. Mae'r Pwyllgorau islaw'r Cyngor yn ein strwythur llywodraethu ond mae ganddynt dasgau a/neu awdurdod diffiniedig dirprwyedig i weithredu yn ogystal â rôl cynghori a chraffu pwysig, yn adrodd i'r Cyngor ar berfformiad y gweithgareddau hynny sy'n rhan o'u cylch gwaith.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yma gan gynnwys Cylch Gorchwyl Pwyllgor y Gymraeg.

Un dasg allweddol i Bwyllgor y Gymraeg, fel yn y blynyddoedd blaenorol, oedd rhoi ar waith Safonau newydd y Gymraeg, fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth.

Gallwch weld rhestr lawn o'r Safonau sy'n berthnasol i ni yma.

Helfa Drysor Blodau Gwyllt, Baladeulyn



## Cwynion

Fel rhan o'n hymrwymiad i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol, rydym yn cofnodi ac yn monitro unrhyw gwynion a dderbyniwn ynghylch y Gymraeg. Gall cwynion ymwneud â ni'n uniongyrchol neu ymwneud â sefydliadau neu weithgareddau yr ydym wedi'u hariannu.

Yn ystod 2022/23, ni chawsom unrhyw gwynion ynglŷn â'r Gymraeg.

## Safonau'r Gymraeg

Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru ein prosesau yn unol â safonau Comisiynydd y Gymraeg. Cliciwch yma i weld y safonau sy'n angenrheidiol eu gweithredu.

## Sgiliau iaith staff

Gofynnir i aelodau staff lanw hunan asesiad sgiliau iaith yn flynyddol. Cyflwynwyd hunan asesiad sgiliau iaith gan 75 aelod o staff ym mis Ionawr 2023.

Dyma'r canlyniadau:

| | |
|---|---|
| Rhugl | 33 |
| Hyfedredd | 4 |
| Uwch | 4 |
| Canolradd | 5 |
| Sylfaen | 8 |
| Mynediad | 16 |
| Dim Cymraeg | 5 |

## Penodiadau newydd

Penodwyd 18 aelod newydd o staff yn ystod y flwyddyn. Cyflawnwyd asesiad sgiliau iaith ar gyfer pob swydd.

Hysbysebwyd y gofynion ieithyddol canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymraeg hanfodol | 9 |
| Cymraeg yn ddymunol | 9 |
| Angen dysgu Cymraeg wedi penodiad | 0 |
| Dim Cymraeg | 0 |

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd 55 sesiwn hyfforddiant perthnasol i'r gweithle gan ddarparwyr allanol. Sicrhawyd cyfieithu ar y pryd ar gyfer sesiynau wyneb yn wyneb ac opsiwn isdeitlau Cymraeg ar gyfer hyfforddiant digidol.

Mynychodd 19 aelod o staff wersi Cymraeg wythnosol yn ystod y flwyddyn.

Cyflogwyd Cydlynydd Dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn. Llwyddodd i ddenu 175 o aelodau o'r sector greadigol i fynychu gwersi Cymraeg gan gynnwys yr aelodau staff a nodir uchod.

Bu 30 o unigolion llawrydd ar gwrs carlam lefel Mynediad i Sylfaen.

Llais y Lle, Diwrnod Rhannu (Llun: Iolo Penri)



# Gofynion statudol eraill

Trwy ddilyn 5 ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys) gallwn gefnogi targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sef sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050 trwy gyflawni ei themâu.

### Strategol

- Creu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

### Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi neges glir yn ei strategaeth ar y Gymraeg, Cymraeg 2050 – yr uchelgais i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Mae gan Cymraeg 2050 dair prif thema, sef cynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg, y defnydd ohoni a chreu amodau ffafriol. Bydd ein holl gamau gweithredu yn 2022/23 yn cyfrannu at y meysydd hyn a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o eiddo Llywodraeth Cymru sef creu "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Mae'r meysydd canlynol yn cynnwys argymhellion yr Adroddiad Mapio, gan addasu dibenion y camau gweithredu yn unol â'r adborth o'n hymgynghoriad. Rydym wedi rhannu ein meysydd gwaith yn ddwy ran allweddol: Datblygu a Monitro.

Rydym yn cyfrannu at gyflawni nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

### Gofynion ein Siarter Frenhinol

"cyflawni'r amcanion (datblygiad, hygyrchedd a chynghori) trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg."

## Cyfrifoldebau Rhyngwladol

### Degawd Ieithoedd Brodorol Y Cenhedloedd Unedig 2022-2032

Pwysleisiodd Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO fod ieithoedd o gwmpas y byd yn parhau i ddiflannu yn frawychus o gyflym er gwaethaf eu gwerth enfawr a'r cyfraniad enfawr maent yn ei wneud i amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog y byd. Mae 40% o'r 7,000 o ieithoedd a ddefnyddir ledled y byd yn wynebu rhywfaint o berygl. Gwaith adran Celf Rhyngwladol Cymru o fewn y Cyngor yw gweithio'n ddwys gyda chynrychiolaeth o wledydd y Byd er mwyn trafod dulliau creadigol cyfunol o fynd i'r afael a'r sialens. Mae cynadleddau, digwyddiadau a phrosiectau celfyddydol wedi dechrau a byddwn yn gweld ffrwyth eu llafur dros y blynyddoedd nesaf.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Adroddiad y Gymraeg
2022-23

www.celf.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®